


Crynodeb Allyriadau Cwmpas 3

Mae allyriadau Cwmpas 3 PDC yn cyfeirio at y ffynonellau allyriadau anuniongyrchol hynny sy'n deillio o weithgareddau nad yw'r Brifysgol yn eu rheoli'n uniongyrchol. Mae'r rhain yn cyfateb i dros 90% o gyfanswm ein hól troed carbon ac yn ymwneud ag allyriadau sy'n gysylltiedig â theithio busnes, cymudo, caffael a chadwyn werth, gwastraff a dŵr.

Mae cipio a dadansoddi ein hallyriadau Cwmpas 3 yn hanfodol i'n helpu i gyrraedd ein nod sero net a lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd, a byddwn yn gweithio i fireinio ein proffil allyriadau i lywio cyfleoedd i weithredu.

Tabl 1: Dadansoddiad o Allyriadau Cwmpas 3 2024-25

Ffynhonnell (tCO ₂ e)	2024-25	% o'r cyfanswm
Teithio busnes	859	2%
Staff yn cymudo	409	1%
Gweithio gartref	680	2%
Cymudo rhwng y tymhorau i fyfyrwyr	4,330	10%
Cymudo dechrau a diwedd tymor myfyrwyr	10,525	23%
Gwastraff a gynhyrchir mewn gweithrediadau	16	0%
Cyflenwad a thrin dŵr	34	0%
Nwyddau a gwasanaethau a brynwyd	11,993	27%
Adeiladau ac Adeiladu	14,424	32%
Allyriadau tanwydd ac ynni	1,058	2%
Allyriadau ar y tir	27	0%
Allyriadau ar y tir (gwrthbwysu)	-46	0%
Cytundebau Enwebu (llety allanol)	426	1%
Arhosiad Gwesty	77	0%
Cyfanswm	44,812	100%

Graff 1: Cyfanswm allyriadau Cwmpas 3 PDC (o'i gymharu â'r flwyddyn sylfaenol)

Nodiadau

Mae gwerthoedd cymudo gweithwyr yn seiliedig ar ddata Arolwg Teithio diweddar a gesglir bob 2 flynedd ac ar ddata cod post penodol lle bo hynny ar gael.

Mae gwerthoedd cymudo myfyrwyr yn seiliedig ar ddata Arolwg Teithio diweddar ac ar ddata cod post ar gyfer cyfeiriadau yn ystod y tymor (gan eithrio myfyrwyr sy'n byw ar gampws Trefforest).

Mae Teithio o'r Cartref i'r Brifysgol i Fyfrwyr yn cynnwys data ar gyfer dechrau a diwedd tymhorau trwy gydol y flwyddyn. Gan ddefnyddio rhagdybiaethau niferoedd myfyrwyr a data cod post (DU, Ewrop a Rhyngwladol), am y pellter cyfartalog a deithiwyd, gyda theithiau car yn dyblu ar gyfer rhieni sy'n teithio i'r Brifysgol gyda'r myfyriwr ac yn dychwelyd adref bob tro.

Mae hedfan ar gyfer cymudo dechrau a diwedd tymor yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar un hediad dychwelyd y flwyddyn. Os yw myfyrwyr yn dewis dychwelyd adref yn amlach na hyn, mae'n ôl eu disgresiwn nhw ac felly nid yw'n cael ei gynnwys.

Mae llawer o lety preswyl myfyrwyr y Brifysgol yn eiddo i'r Brifysgol. Mae gennym hefyd gytundebau enwebu gyda darparwyr preifat o lety myfyrwyr ar gyfer nifer o ystafelloedd oddi ar y safle. Er nad yw'r rhain yn cael eu gweithredu o dan drefniadau'r Brifysgol ac felly nid oes gennym unrhyw ddylanwad neu oruchwyliaeth uniongyrchol o'r allyriadau hyn, mae amcangyfrif wedi'i gynnwys yn seiliedig ar bob ystafell uchod.

Mae allyriadau caffael yn cael eu cyfrifo'n bennaf yn seiliedig ar ddata gwariant Haen 3 gan ddefnyddio codau Dosbarthiadau Diwydiannol Safonol (SIC) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yn 2022 a ffactorau trosi sy'n seiliedig ar wariant categori.